BRAIN
Repair & Intracranial Neurotherapeutics




# BRAIN *Involve*

Credwn fod cyfranogiad aelodau o'r cyhoedd ar arwain at ymchwil sy'n fwy perthnasol ac yn fwy dibynadwy.

**www.brain.wales**

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd · Prifysgol Bangor University · Prifysgol Abertawe Swansea University · GIG Cymru NHS Wales · Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru / Health and Care Research Wales · Ariennir gan Lywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government

## Dwyn cleifion, gofalwyr ac academyddion ynghyd i lunio ymchwil arloesol i glefydau niwrolegol a niwroddirywiol.

### Beth yw BRAIN Involve?

Grŵp cynnwys cleifion a'r cyhoedd yw BRAIN Involve, sy'n helpu i lywio gweithgarwch ymchwil yr Uned Trwsio'r Ymennydd a Niwrotherapiwteg Mewngreuanol (BRAIN).

Mae'n cynnwys pobl y mae clefydau niwrolegol fel epilepsi, clefyd Huntington, sglerosis ymledol neu glefyd Parkinson yn effeithio arnynt, neu wedi effeithio arnynt.

### Beth fyddai'n rhaid i mi ei wneud?

Nid yw bod yn aelod o BRAIN Involve yn ymwneud â chymryd rhan mewn gwaith ymchwil. Yn hytrach, mae'n ymwneud â defnyddio eich profiadau i helpu i lywio a datblygu syniadau ymchwil a phrosiectau sy'n berthnasol i chi.

Mae sawl ffordd y gallwch gyfrannu at ymchwil BRAIN:

- Mynd i ddigwyddiadau ymchwil BRAIN
- Rhoi adborth ar grantiau ymchwil a deunyddiau astudio ymchwil BRAIN, yn ogystal â thaflenni i gleifion
- Datblygu a chyfrannu at ddigwyddiadau lle byddwn yn rhannu canfyddiadau ymchwil BRAIN, a dod iddyn nhw

Efallai fod cymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu ymchwil yn ymddangos yn frawychus, ond gallwn eich cefnogi i'ch helpu i fod mor weithgar ag y mynnwch.

***Os hoffech gael gwybod rhagor am BRAIN Involve a sut gallwch ymuno â'r grŵp, cysylltwch â ni ar bob cyfrif.***


### Freepost BRAIN UNIT

**(Sylwer, i ysgrifennu atom am ddim, defnyddiwch yr union destun uchod, rhaid i BRAIN UNIT ymddangos mewn priflythrennau bob amser, ac nid oes angen chi roi stamp ar yr amlen)**

**Ffôn: +44 (0)29 2068 8608**
**Ebost: brainunit@cardiff.ac.uk**


**Mae BRAIN Involve yn gweithio gyda Rhwydwaith Cynnwys Pobl, rhwydwaith ymgysylltiad a chynnwys y cyhoedd Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru, sy'n cynnig amrywiaeth o ddigwyddiadau hyfforddi a chefnogi am ddim ar gymryd rhan mewn gwaith ymchwil.**